**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION YR HINSAWDD**
Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a gynhaliwyd Dydd Iau, 21 Rhagfyr 2023 am 10.00 am
Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

**Roedd y Aelodau Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd canlynol yn bresennol**

Y Cynghorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings  Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd M Norris  Y Cynghorydd W Owen

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Ms L Lawson, Rheolwr Cyflawniad
Mr P Dukes, Blaen Swyddog Materion Lleihau Carbon
Mr A Roberts, Swyddog Lleihau Carbon

## 7 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

## 8 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 yn rhai cywir.

## 9 Materion yn codi

Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau mewn perthynas â'r ddau gam gweithredu a godwyd yng nghyfarfod mis Medi, sef:

1. Ymweliad safle; Bydd ymweliad safle yn cael ei gynnal ar 5 Mawrth 2024. Bydd manylion y lleoliad yn cael eu rhannu maes o law.
2. Cyfarfod gyda'r Grid Cenedlaethol; Rhoddodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor y newyddion diweddaraf i Aelodau.

Nododd y Cyfarwyddwr fod cyfarfod cadarnhaol wedi cael ei gynnal gyda'r Grid Cenedlaethol a oedd wedi cynnwys trafodaethau am Gymdeithas Rhwydwaith Ynni a chynllun tri phwynt sydd ar gael ar wefan y Grid Cenedlaethol. Cadarnhaodd y Grid Cenedlaethol ei fod yn hapus i weithio ar y cyd â Chyngor RhCT ac i barhau â'r trafodaethau. Fel Gweithredwr Gwasanaeth Dosbarthu

(DSO), mae rhaid iddo lunio cynllun busnes preifat sy'n benodol iawn. Mae'r gwaith y mae'n ei wneud ar y cynllun yn cael ei reoleiddio'n fanwl iawn. Dywedodd y Cyfarwyddwr, o ran ein cynllun ynni lleol, fod y Grid Cenedlaethol wedi nodi po fwyaf y gallwn ni roi gwybod iddo am ein hanghenion, y mwyaf y gall gynnwys hynny yn ei gynlluniau busnes a gofyn i OFGEM am gyllid. Cadarnhaodd y Grid Cenedlaethol ei fod eisiau gweithio gyda ni trwy gydol cyfnod y Cynllun Ynni Lleol. Yn ogystal â hynny, nododd y Cyfarwyddwr fod y Grid Cenedlaethol wedi cyflwyno addewid cysylltedd, sy'n dweud bod gan ddefnyddwyr hawl i osod mannau gwefru cerbydau trydan yn eu cartrefi, yn ogystal â phympiau gwres safonol. Caiff defnyddwyr roi gwybod i'r Grid Cenedlaethol am y rhain ar ôl eu gosod. Cafodd Aelodau wybod bod y Grid Cenedlaethol yn ailgynllunio ei wefan, gan ei gwneud hi'n seiliedig ar ardal a chyflwyno statws Coch Melyn Gwyrdd (RAG). Mae hefyd yn cyhoeddi Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan newydd. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr fod y cyfarfod yn gadarnhaol iawn.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn gadarnhaol ac y bydd y Grid Cenedlaethol yn cael gwahoddiad i gyfarfod pwyllgor yn y dyfodol. Cadarnhaodd Aelod ei fod yn falch o glywed hyn a'i fod yn edrych ymlaen at glywed rhagor gan y Grid Cenedlaethol yn y dyfodol. Roedd Aelodau'n falch o glywed ein bod ni wedi datblygu perthynas dda gyda'r dosbarthwr ond hoffen nhw sicrwydd y bydd cymunedau llai cyfoethog yn cael mynediad at y rhwydwaith hefyd. Cytunodd y Cadeirydd â phwysigrwydd monitro hyn yn y dyfodol.

## 10 'HINSAWDD YSTYRIOL RHCT' – STRATEGAETH MYND I'R AFAEL Â NEWID YN YR HINSAWDD Y CYNGOR 2022-2025: ADRODDIAD CYFLAWNIAD CHWARTER 2

Cyflwynodd y Rheolwr Cyflawniad 'Hinsawdd Ystyriol RhCT: Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor 2022-2025' – Chwarter 2 i Aelodau.

Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad a nododd ei bod hi'n gadarnhaol iawn gweld rhagor am gaffael. Cyfeiriodd y Cadeirydd at Wobrau Eco Ysgolion a gofynnodd faint o ysgolion sydd wedi cofrestru i dderbyn gwobr Efydd. Cadarnhaodd y Rheolwr Cyflawniad fod 19 o ysgolion eisoes wedi cofrestru hyd yn hyn. Roedd y Cadeirydd yn falch o glywed hyn a phwysleisiodd bwysigrwydd cynnwys plant ein hysgolion. Aeth yr Is-gadeirydd ati i ganmol y gwaith yma hefyd a rhoddodd ddiolch i'r Swyddogion am adroddiad mor fanwl.

Cafwyd trafodaeth a rhoddwyd canmoliaeth am y gwaith a gafodd ei gynnal y tu ôl i'r llenni. Cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 14 a gofynnodd a oedd unrhyw ddiweddariad o ran cyllid cam dau prosiect arloesi Cwm Taf Morgannwg. Croesawodd yr Aelod nifer y bobl sy'n cyflwyno cais am grantiau i wella eu heiddo a dywedodd fod hyn yn galonogol. Nododd y Rheolwr Cyflawniad y bydd manylion pellach o ran cyllid grant yn cael eu cynnwys yn niweddariad chwarter 3 ar ôl y Nadolig.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau:

1. Trafod yr wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
2. Pennu safbwynt ar y meysydd posibl i'w trafod ymhellach yn rhan o Raglen Waith ys Is-bwyllgor; a
3. Nodi'r gwaith i'w ddatblygu ac ymgorffori ymateb y Cyngor i'r Newid yn yr Hinsawdd ymhellach ym musnes y Cyngor, a hynny'n rhan o ddatblygiad

Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor.

## 11 Ôl Troed Carbon

Cyflwynodd Blaen Swyddog Lleihau Carbon yr adroddiad i Aelodau a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Is-bwyllgor am Gynllun Carbon Sero-Net Sector Cyhoeddus Cymru a'r hyn a gyflwynwyd gan Gyngor Rhondda Cynon Taf o dan y drefn honno ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022/23.

Aeth y Cadeirydd ati i ganmol yr adroddiad a nododd pa mor hapus oedd hi i weld ein bod ni'n cadw 23% o'n cadwyn gyflenwi. Croesawodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau.

Cafwyd trafodaeth a chyfeiriodd Aelod at 5.8 a nododd nad oes modd i ni ddefnyddio peth o'r data i wrthbwyso ein hallyriadau carbon. Gofynnodd Aelod pam nad oes modd gwneud hynny. Nododd y Blaen Swyddog Lleihau Carbon y cafodd y mecanwaith adrodd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru a'i bod hi o'r farn ein bod ni eisoes yn elwa ar unrhyw drydan newydd rydyn ni'n ei gynhyrchu felly byddai ei ddefnyddio i wrthbwyso ein hallyriadau carbon yn fudd ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru a chyfranogwyr y cynllun yn trafod ar hyn o bryd er mwyn nodi ffordd newydd o gydnabod yr ynni adnewyddadwy rydyn ni'n ei gynhyrchu. Gofynnodd y Cadeirydd fod yr wybodaeth ddiweddaraf o ran hyn yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor.

Cafwyd trafodaeth ac aeth Aelod ati i ganmol y ffaith bod gostyngiad cyffredinol i'w weld ar draws y Bwrdd. Nododd yr Aelod faint o waith caled sydd wedi cael ei gynnal y tu ôl i'r llenni mewn perthynas â'n cadwyn gyflenwi a rhoi gwybod i gyflenwyr am sut mae modd lleihau eu hôl troed carbon, ac yn ei dro lleihau ein hôl troed carbon ni. Aeth yr Aelod ati i ganmol y Swyddogion am eu gwaith caled. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i Aelodau ei bod wedi cwrdd â staff a phrentisiaid/swyddogion graddedig y garfan ac wedi diolch iddyn nhw. Byddan nhw'n cael gwahoddiad i gyfarfod yn y dyfodol.

Aeth Aelod arall ati i ganmol yr adroddiad a nododd fod y newidiadau i wasanaethau sydd wedi'u gwneud gan y Cabinet dros y blynyddoedd diwethaf wedi dangos bod cysylltiad â datgarboneiddio.

Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNWYD**:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad yma'n rhan o'r gwaith parhaus o dan gylch gwaith Is-Bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd;
2. Cyhoeddi'r data ar Ddangosfwrdd Ôl Troed Carbon y Cyngor; a
3. Derbyn adroddiadau pellach sy'n rhoi diweddariadau ychwanegol am gynnydd pan fydd hi'n addas.

## 12 ADRODDIAD DIWEDDARU AR Y FFERM SOLAR ARFAETHEDIG

Cyflwynodd y Pennaeth Ynni a Lleihau Carbon ei adroddiad i'r Aelodau a rhoddodd ddiweddariad pellach mewn perthynas â'r gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu 'Fferm Solar ar y Tir', i'w lleoli ar dir y Cyngor yng Nghoed-elái (hen safle glofa 'teras' 84-erw, ger Tonyrefail). Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fydd perchennog y cyfleuster yma.

Cafwyd trafodaeth ac aeth Aelod ati i ganmol yr adroddiad gan nodi ei fod yn hawdd ei ddeall. Aeth yr Aelod hefyd ati i longyfarch y Swyddog am sicrhau cyllid grant.

Ar ôl trafodaeth, **CYTUNODD** Aelodau:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad yma yn rhan o'r gwaith parhaus mewn ymateb i'n huchelgeisiau newid yn yr hinsawdd a chytuno i ddatblygu cynigion y prosiect ymhellach yn unol â chynnwys yr adroddiad yma.
2. Derbyn adroddiad(au) pellach sy'n rhoi diweddariadau ar gynnydd pan fydd hi'n addas.

**13 SEILWAITH GWEFRU CERBYDAU TRYDAN YN ASEDAU'R CYNGOR**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Phennaeth Ynni a Lleihau Carbon yr adroddiad i Aelodau a rhoddwyd diweddariad mewn perthynas â'r cynnydd ym maes gwefru cerbydau trydan yn asedau'r Cyngor, a hynny o ran gweithio tuag at nodau gwefru cerbydau trydan y Cyngor sydd wedi cael eu datgan yn gyhoeddus. Rhoddodd y Cyfarwyddwr gyflwyniad PowerPoint i Aelodau mewn perthynas â mannau gwefru cerbydau trydan ledled y Fwrdeistref Sirol.

Aeth y Cadeirydd ati i ganmol faint o ddata oedd yn yr adroddiad a nododd nad yw rhai mannau gwefru yn cael eu defnyddio llawer a gall y data ein helpu ni i gyflwyno mannau gwefru a gwybod ble i'w rhoi.

Cafwyd trafodaeth a nododd Aelod pa mor dda oedd hi i weld faint o fannau gwefru sydd ar gael ledled RhCT. Gofynnodd Aelod a fydd mannau gwefru'n cael eu gosod yn Fferm Solar Coed-elái pan fydd yn barod ac a oes gyda ni fapiau o ddarparwyr trydydd parti. Aeth Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor ati i gydnabod bod bylchau yn ardal Coed-elái ond rhoddodd wybod i Aelodau fod y garfan yn gweithio ar hyn yn barod. Nododd y Cyfarwyddwr fod Zap Map ar gael a'i fod yn cynnwys yr holl ddarparwyr trydydd parti. Mae modd defnyddio Zap Map i wirio a yw'r mannau gwefru yn gweithio. Mae data RhCT o ran mannau gwefru hefyd i'w weld ar Zap Map. Gofynnodd Aelod arall a oes modd derbyn crynodeb o fannau gwefru a'u defnydd mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cadarnhaodd Pennaeth Ynni a Lleihau Carbon fod gyda ni'r data yma'n barod a bydd gyda ni ddata cyhoeddus hefyd pan fydd yn mynd yn fyw. O ran Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae Pennaeth Ynni a Lleihau Carbon wedi cadarnhau ei fod wedi gofyn am ddata ond heb ei gael hyd yn hyn. Nododd y Cadeirydd y byddai modd i'r Pwyllgor ysgrifennu atyn nhw yn gofyn am y data.

Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNODD** Aelodau:

Nodi cynnwys yr adroddiad yma, a chyflwyniad cysylltiedig, yn rhan o'r gwaith parhaus mewn ymateb i uchelgeisiau'r Cyngor o ran gwefru cerbydau trydan a gafodd eu pennu gan y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd a'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan a Chynllun Gweithredu; a

2. Derbyn adroddiad(au) pellach sy'n rhoi diweddariadau ar gynnydd pan fydd hi'n addas.

## 14 MATERION BRYS

Doedd dim mater brys i'w drafod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am**

**Y Cynghorydd C Leyshon**
**Cadeirydd.**